OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 754 (Cy. 129)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Llantrisant), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder Dros Dro) 2025

Gwnaed	*25 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Llantrisant), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw'r darn o draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 (Llantrisant), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain rhwng y cyffyrdd hyn;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru